

Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd
Cynnar



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At:
AGGCC
Gofal Cymdeithasol Cymru
SkillsActive
Chwarae Cymru
Consortiwm Gofal Plant CWLWM
CLILC
AWARE
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
Cydgysylltwyr Chwarae Awdurdodau Lleol
Cydgysylltwyr Gofal Plant Awdurdodau Lleol
Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd

11 Medi 2017

Annwyl Gyfaill,

Cylchlythyr WGC 006/2017

Newidiadau pellach i'r *Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir ar gyfer plant hyd at 12 oed (Ebrill 2016)* mewn cysylltiad â Safon 13: Staffio.

Cyhoeddir y cylchlythyr hwn gyda chytundeb Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant. Gofalwch fod yr holl bartïon perthnasol yn cael gwybod am y cynnwys cyn gynted â phosibl.

Pwrpas y Cylchlythyr hwn yw rhoi rhagrybudd o ofynion y dyfodol a fydd yn rhan o'r *Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir hyd at 12 oed*.

Mae'r rhain yn ymwneud â Safonau 13.6(DC) a 13.7(DC) Gofal Dydd. Maent yn ymwneud â'r cymwysterau sy'n ofynnol i berson â chyfrifoldeb a staff nad ydynt yn goruchwylio sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a chwarae a reoleiddir i blant 0-12 oed.

Cytunwyd ar y gofynion hyn gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a SkillsActive, y cynghorau sgiliau sector sy'n gyfrifol am y sectorau gofal plant a chwarae yng Nghymru. Mae mwy o fanylion ar *Restr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru* Gofal Cymdeithasol Cymru a *Rhestr Cymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru* SkillsActive.

Atodiad 1 – dolenni i'r dogfennau y sonnir amdanynt yn y cylchlythyr hwn.

Atodiad 2 – Cylchlythyr Llywodraeth Cymru WGC 004/2015 – Newid dros dro i Safon 13.6(DC) Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir 2012, mewn cysylltiad â chynlluniau chwarae gwyliau.

1. Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r cylchlythyr blaenorol

Roedd Safonau Gofynnol Cenedlaethol Ebrill 2016 (i) a Chylchlythyr WGC 004/2015 (ii) yn hysbysu am:

(i) Newidiadau i ofynion cymwysterau ar gyfer:

- a. person â chyfrifoldeb
- b. staff nad ydynt yn goruchwyllo

mewn lleoliadau gofal plant a chwarae cofrestredig sy'n darparu ar gyfer plant hyd at 12 oed, a fyddai'n cael eu hysbysu'n ddiweddarach.

(ii) llacio'r gofynion dros dro mewn perthynas â'r cymwysterau sy'n ofynnol i berson â chyfrifoldeb am gynllun chwarae gwyliau.

2. Ehangu gofal plant a reoleiddir i blant hyd at 12 oed a chynlluniau chwarae gwyliau

Ym mis Ebrill 2016, ehangwyd gofynion cofrestru gofal plant a reoleiddir ar gyfer plant hyd at 8 oed i gwmpasu lleoliadau gofal plant a chwarae sy'n darparu ar gyfer plant hyd at 12 oed. Cyflwynwyd rhai newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i sicrhau eu bod yn briodol i ofal plant ar gyfer plant hyd at 12 oed, sy'n dod o dan ofynion rheoliad bellach.

Mae'r cylchlythyr hwn yn hysbysu am newidiadau i'r canlynol:

- (i) y cymwysterau chwarae a fydd yn ofynnol i bersonau â chyfrifoldeb a staff eraill pan fo'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant hyd at 12 oed;
- (ii) newid arall mewn perthynas â gofynion cymwysterau person â chyfrifoldeb am gynllun chwarae gwyliau.

O ran Gwarchodwyr Plant, nid oes newidiadau i'r gofyniad yn Safon 13.2(CM) sy'n nodi bod rhaid iddynt gwblhau cwrs cyn-cofrestru priodol.

3. Personau â chyfrifoldeb: gofynion cymwysterau chwarae yn dilyn ehangu cofrestru

Ar hyn o bryd

Ar hyn o bryd, mae Safon 13.6(DC) yn nodi ei bod hi'n ofynnol bod gan y person â chyfrifoldeb gymhwyster ar lefel 3 o leiaf sy'n briodol i'r lleoliad ac sy'n cael ei gydnabod naill ar:

- (a) *Restr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru Gofal Cymdeithasol Cymru, neu*
- (b) *Rhestr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru SkillsActive (neu unrhyw restrau sy'n eu disodli).*

O fis Medi 2021

Pan fo lleoliad gofal plant yn darparu ar gyfer plant rhwng 0 a 12 oed dylai'r person â chyfrifoldeb feddu ar y **ddau** gymhwyster canlynol:

- (a) Cymhwyster gofal plant lefel 3 a gydnabyddir ar Restr Gofal Cymdeithasol Cymru, **a**
- (b) Cymhwyster gwaith chwarae lefel 3 **neu** ddyfarniad llai a gydnabyddir ar restr SkillsActive.

Dylai'r person â chyfrifoldeb am leoliad chwarae cofrestredig ar gyfer plant hyd at 12 oed feddu ar gymhwyster gwaith chwarae lefel 3 a gydnabyddir ar Restr SkillsActive.

Dylai'r person â chyfrifoldeb am gynllun chwarae gwyliau feddu ar:

- (a) gymhwyster gwaith chwarae lefel 3, fel y nodir ar Restr SkillsActive, **neu**
- (b) gymhwyster lefel 3 mewn sector cysylltiedig, **a'r**
Dyfarniad Rheoli Cynllun Chwarae Gwyliau, fel y nodir yn Rhestr SkillsActive.

4. Staff nad ydynt yn goruchwylio

Ar hyn o bryd

Ar hyn o bryd, mae Safon 13.7(DC)(a) yn ei gwneud hi'n ofynnol i o leiaf 50% o'r staff nad ydynt yn goruchwylio feddu ar gymhwyster sy'n briodol i'r swydd ac sydd yn gymhwyster lefel 2 o leiaf, naill ai o:

- *Restr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru* Gofal Cymdeithasol Cymru, **neu**
- *Rhestr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru* SkillsActive (neu unrhyw restrau sy'n eu disodli).

Dylai o leiaf hanner y rhain feddu ar gymhwyster lefel 3, hy 25%.

Ar hyn o bryd, mae Safon 13.7(DC)(b) ar gyfer lleoliadau gofal dydd llawn yn ei gwneud hi'n ofynnol i o leiaf 80% o'r staff nad ydynt yn goruchwylio feddu ar gymhwyster sy'n briodol i'r swydd ac sydd yn gymhwyster lefel 2 o leiaf, naill ai o:

- *Restr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru* Gofal Cymdeithasol Cymru, **neu**
- *Rhestr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru* SkillsActive (neu unrhyw restrau sy'n eu disodli).

Dylai o leiaf hanner y rhain feddu ar gymhwyster gofal plant lefel 3, hy 40%.

O fis Medi 2021

Yn ogystal â'r gofynion cyfredol a nodwyd yn adran 4 uchod, bydd y gofynion canlynol yn dod i rym o fis Medi 2021.

Mae Safon 13.7(DC)(a) yn nodi y dylai 50% o staff nad ydynt yn goruchwylio sy'n gofalu am blant rhwng **8 a 12** oed, feddu ar:

- (a) Gymhwyster gwaith chwarae lefel 2 fel y cydnabyddir ar Restr SkillsActive.

Mae Safon 13.7(DC)(b) yn nodi y dylai 80% o staff cymwys mewn lleoliad gofal dydd llawn sy'n gofalu am blant hyd at 12 oed feddu ar y **ddau** gymhwyster canlynol:

- (a) cymhwyster gofal plant lefel 2 a gydnabyddir ar Restr Gofal Cymdeithasol Cymru
a
- (b) cymhwyster gwaith chwarae lefel 2 neu ddyfarniad llai a gydnabyddir ar Restr SkillsActive.

Dylai o leiaf hanner y rhain feddu ar gymhwyster gofal plant lefel 3, hy 40%.

5. Gwarchodwr Plant

O fis Medi 2021

O ran Gwarchodwyr Plant, nid oes unrhyw newidiadau i'r gofyniad yn Safon 13.2(CM) sy'n nodi bod rhaid iddynt gwblhau cwrs cyn-cofrestru priodol gan fod hyn eisoes yn ystyried anghenion plant hŷn.

6. Person â chyfrifoldeb am leoliad chwarae gwyliau

Mae'r llacio gofynion dros dro a gyflwynwyd yng Nghylchlythyr WGC 004/2015 mewn perthynas â chymwysterau gofynnol person â chyfrifoldeb am gynllun chwarae gwyliau, wedi'i wneud yn barhaol. Mae'r cymwysterau gofynnol wedi'u ffurfioli a'u hychwanegu at Restr SkillsActive o gymwysterau.

7. Angen ymateb prydlon

Er bod llawer o amser wedi'i roi ar gyfer ennill y cymwysterau gofynnol, anogir darparwyr a gweithwyr perthnasol i gynllunio ymlaen i sicrhau y byddant mewn sefyllfa i fodloni'r holl ofynion cymwysterau erbyn y dyddiad cau ym mis Medi 2021. Wrth wneud hynny bydd angen iddynt ystyried cyrsiau perthnasol sydd ar gael a faint o amser sydd ei angen i'w cwblhau. Gofynnir i weithwyr sy'n ceisio cofrestru yn y cyfnod cyfamserol hwn ddweud pa gamau maent yn eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth.

8. Rhesymau dros newid y gofynion

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn cydnabod pwysigrwydd darpariaeth gofal plant a chwarae, yn cynnwys cynlluniau chwarae gwyliau, i blant a'u rhieni. Mae am sicrhau bod gan y gweithluoedd gofal plant a chwarae y cymwysterau, y sgiliau a'r profiad priodol i gyflwyno darpariaeth o safon uchel yn y gwahanol fathau o leoliadau ac i'r ystod oedran llawn o blant sy'n derbyn gofal.

Diben y Cylchlythyr hwn yw amlinellu'r newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn y dyfodol o ran y cymwysterau a fydd yn ofynnol i bersonau â chyfrifoldeb a staff nad ydynt yn goruchwylio sy'n gweithio mewn lleoliadau ar gyfer plant 0 i 12 oed. Gwneir hyn i adlewyrchu'r gofynion gwahanol sydd eu hangen ar gyfer gweithio gyda phlant hŷn ac i ystyried eu hannibyniaeth gynyddol, eu hymddygiad a'u diddordebau.

Mae gan weithluoedd gofal plant a chwarae sy'n gweithio gyda phlant o 8-12 oed tan fis Medi 2021 i ennill y cymwysterau gofynnol. Mae hon yn amserlen realistig ar gyfer cwblhau'r cyrsiau; ystyried rhyddhau staff bob yn dipyn mewn perthynas â gofynion staffio lleoliadau; goblygiadau posibl o ran costau; ac i gydnabod gallu darparwyr hyfforddiant i ddarparu'r cyrsiau cymwysterau gofynnol.

O ran darpariaeth chwarae gwyliau, roedd Cylchlythyr WGC 004/2015 yn cydnabod bod yna ostyngiad sylweddol wedi bod mewn darpariaeth cynlluniau chwarae gwyliau gan ei bod hi'n anodd recriwtio personau â chyfrifoldeb sy'n meddu ar Ddiploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae. Cyflwynwyd consesiwn am dderbyn cymhwyster lefel 3 perthnasol ac ennill *Dyfarniad Rheoli Cynllun Chwarae Gwyliau* achrededig ar gyfer y swydd hon. Dangoswyd bod hyn wedi bod yn drefniant addas er mwyn parhau i gynnig darpariaeth chwarae gwyliau o safon a'i fod wedi'i ffurfioli erbyn hyn drwy ddiwygio rhestr gymwysterau Skills Active.

Darparwyd dolenni i ddogfennau allweddol y cyfeiriwyd atynt yn y cylchlythyr hwn, i hwyluso dealltwriaeth rhanddeiliaid o'r gofynion a'u cydymffurfiaeth â nhw.

Rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith pwysig mae staff gofal plant a chwarae'n ei wneud o ran sicrhau lle ein plant a darparu cymorth i'w teuluoedd. Gobeithio bod y cylchlythyr hwn yn egluro'r gofynion cyfreithiol ar gyfer lleoliadau gofal plant a chwarae a gofynnwn i chi ei rannu gyda'ch rhanddeiliaid.

Yn gywir



Owain Lloyd

Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar

Atodiad 1 - Dolenni i ddogfennau y cyfeirir atynt

Rheoleiddio ac arolygu gofal plant

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/childcare/regulation/?skip=1&lang=cy>

Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir ar gyfer plant hyd at 12 oed (Ebrill 2016)

<http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/160411-regulated-child-care-cy.pdf>

Rhestr Gofal Cymdeithasol Cymru o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru

<https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/cymwysterau-blynyddoedd-cynnar-a-gofal-plant?record-language-choice=en-cy>

Rhestr SkillsActive o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y sector gwaith chwarae yng Nghymru

<http://www.skillsactive.com/country/wales/list-of-required-qualifications-for-wales-playwork>

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

Fframwaith arolygu ar gyfer gofal plant a chwarae

<http://cssiw.org.uk/about/strategic-plan/changing-the-way-we-inspect/childcare/inspection-framework-for-childcare-and-play/?skip=1&lang=cy>

Atodiad 2 - Cylchlythyr WGC 004/2015

Dirprwy Gyfarwyddwr Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd
Deputy Director Children, Young People and Families



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At:
AGGCC
SkillsActive
Chwarae Cymru
Consortiwm Gofal Plant CWLWM
CLILC
Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
Cydgysylltwyr Chwarae Awdurdodau Lleol
Cydgysylltwyr Gofal Plant Awdurdodau Lleol
Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd

11 Mehefin 2015

cc. Cyngor Gofal Cymru
Groundwork Cymru

Annwyl Gyfaill,

Cylchlythyr WGC 004/2015– Newid dros dro i Safon 13.6(DC) Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir 2012, mewn cysylltiad â chynlluniau chwarae gwyliau.

Noder: o dan gytundeb y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, daw'r Cylchlythyr hwn i rym o ddyddiad y llythyr hwn.

Gofalwch fod yr holl bartion perthnasol yn cael gwybod am y newid a'u bod yn ei weithredu ar unwaith.

Cylchlythyr WGC 004/2015– Newid dros dro i Safon 13.6(DC) Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir 2012, mewn cysylltiad â chynlluniau chwarae gwyliau.

Cofrestru ac Arolygu chynlluniau chwarae gwyliau

1. Y Sefyllfa Gyfreithiol Bresennol

2. Newid Safon 13.6(DC)

3. Rheswm dros Newid

1. Y Sefyllfa Gyfreithiol Bresennol

Mae Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 a wnaed o dan Ran 2 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn pennu'r gofynion ar gyfer ystod o leoedd gwarchod plant a gofal dydd cofrestredig, gan gynnwys y ddarpariaeth chwarae mynediad agored a chynlluniau chwarae gwyliau.

Mae Atodlen 1, paragraff 28 Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol *“bod gan y person â chyfrifoldeb y cymwysterau, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i ofalu am blant o dan wyth mlwydd oed.”*

Mae Rheoliad 14(1) yn ei gwneud yn ofynnol bod yn *“Rhaid i'r person cofrestredig roi sylw i'r safonau gofynnol cenedlaethol sy'n ymwneud â'r math o ofal a ddarperir gan y person cofrestredig.”*

Dywed Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir 2012, yn Safon 13.6(DC) *“bod gan y person â chyfrifoldeb gymhwyster ar lefel 3 o leiaf a gydnabyddir ar restr bresennol Cyngor Gofal Cymru o Gymwysterau Derbyniol ar gyfer y Gweithlu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru, neu yn Fframwaith Cymwysterau Integredig Skills Active ar gyfer Gwaith Chwarae (neu ar unrhyw restrau sy'n eu disodli), sy'n briodol i'r swydd.”*

2. Newid i Safon 13.6(DC) Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir 2012

Cam 1 – i ddod i rym o fis Mehefin 2015 – Medi 2016

Am y cyfnod a nodir, bydd **Safon 13.6(DC)** fel a ganlyn:-

“bydd yn ofynnol bod gan y person â chyfrifoldeb gymhwyster ar lefel 3 o leiaf a gydnabyddir gan Restr Cyngor Gofal Cymru o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru, neu gan Restr Skills Active o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru (neu ar unrhyw restrau sy'n eu disodli), sy'n briodol i'r swydd.”

Ar gyfer cynllun chwarae gwyliau

Bydd gan y person â chyfrifoldeb am gynllun chwarae gwyliau y cymwysterau, y sgiliau a'r profiad priodol i ymgymryd â'r rôl hon. Bydd y cymwysterau derbyniol yn cynnwys cymhwyster ar lefel 3 o leiaf a gydnabyddir ar Restr bresennol Cyngor Gofal Cymru o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru, neu ar Restr Skills Active o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru (neu ar unrhyw restrau sy'n eu disodli), sy'n briodol i'r swydd neu gymhwyster addysgu, gwaith ieuencid neu gymhwyster perthnasol arall ar lefel 3 neu uwch. Hefyd, dylai fod gan ddeiliad y swydd y sgiliau rheoli a'r profiad perthnasol i reoli cynllun chwarae gwyliau'n effeithiol.”

Cam 2 – i ddod i rym o fis Medi 2016 – Medi 2018

Am y cyfnod a nodir, bydd **Safon 13.6(DC)** fel a ganlyn:-

“bydd yn ofynnol bod gan y person â chyfrifoldeb gymhwyster ar lefel 3 o leiaf a gydnabyddir gan Restr Cyngor Gofal Cymru o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru, neu gan Restr Skills Active o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru (neu ar unrhyw restrau sy'n eu disodli), sy'n briodol i'r swydd.

Ar gyfer cynllun chwarae gwyliau

Bydd gan y person â chyfrifoldeb am gynllun chwarae gwyliau y cymwysterau, y sgiliau a'r profiad priodol i ymgymryd â'r rôl hon. Bydd y cymwysterau derbyniol yn cynnwys cymhwyster ar lefel 3 o leiaf a gydnabyddir ar Restr bresennol Cyngor Gofal Cymru o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru, neu ar Restr Skills Active o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru (neu ar unrhyw restrau sy'n eu disodli), sy'n briodol i'r swydd neu gymhwyster addysgu, gwaith ieuencid neu gymhwyster perthnasol arall ar lefel 3 neu uwch. Hefyd, dylai fod gan ddeiliad y swydd y sgiliau rheoli a'r profiad perthnasol i reoli cynllun chwarae gwyliau'n effeithiol.”

Lle na bo gan y person â chyfrifoldeb am gynllun chwarae gwyliau gymhwyster Gwaith Chwarae ar lefel 3, dylai feddu ar uned lefel 3 mewn “Rheoli Cynllun Chwarae Gwyliau”
*

*Yn ystod haf 2015, datblygir cymhwyster Rheoli Cynllun Chwarae Gwyliau. Bydd hwn yn gymhwyster pontio a ychwanegir at Restr Skills Active o Gymwysterau Gofynnol i weithio o fewn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru, yn benodol ar gyfer pobl sydd â chyfrifoldeb am gynllun chwarae gwyliau.

Cam 3 – i ddod i rym o fis Medi 2018

O fis Medi, bydd **Safon 13.6(DC)** fel a ganlyn:-

“bydd yn ofynnol bod gan y person â chyfrifoldeb gymhwyster ar lefel 3 o leiaf a gydnabyddir gan Restr Cyngor Gofal Cymru o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru, neu gan Restr Skills Active o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru (neu ar unrhyw restrau sy'n eu disodli), sy'n briodol i'r swydd.

Ar gyfer cynllun chwarae gwyliau

Mae Safon 13.6 (DC) yn gymwys i gynlluniau chwarae gwyliau fel ag y mae'n gymwys i ddarpariaeth arall o dan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, 2012.”

3. Rheswm dros Newid

Mae cyfran o ddarparwyr cynlluniau chwarae gwyliau yn ei chael yn anodd sicrhau'r cymwysterau y gofynnir amdany'n nhw yn y Safonau Gofynnol, yn enwedig y gofyn ar i'r Person â Chyfrifoldeb sicrhau cymhwyster Gwaith Chwarae lefel 3. Mae hyn eisoes wedi arwain at leihad yn y cynlluniau chwarae gwyliau cofrestredig, a chyfyd gofidiau ynghylch cwtogi pellach ar y ddarpariaeth.

Mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn cydnabod pwysigrwydd cynlluniau chwarae gwyliau i blant a'u rhieni. Rhag colledion pellach yn y ddarpariaeth werthfawr hon, ond gan sicrhau bod pobl â chyfrifoldeb am gynlluniau chwarae gwyliau yn parhau i sicrhau cymwysterau gwaith chwarae ar lefel 3, mae'r Gweinidog yn cyhoeddi Cylchlythyr WGC 004/2015.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'MS' with a stylized flourish at the end.

Martin Swain
Dirprwy Gyfarwyddwr Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd
Deputy Director Children, Young People and Families